28.08.20

Dechrau Tymor Newydd

Annwyl Rieni / Ofalwyr

Croeso nôl i flwyddyn academaidd newydd!. Rydym i gyd yma yn Nhyle'r Ynn yn edrych ymlaen yn eiddgar at groesawu'r plant nôl atom er mwyn ail-gydio yn eu haddysg a symud ymlaen mewn ffordd cadarnhaol a chyffrous.

Isod mae gwybodaeth bwysig ynglŷn â threfniadau a rhediad yr ysgol o fis Medi ymlaen.

Dyddiadau Dechrau

- Meithrin, Derbyn 1, Derbyn 2, Blwyddyn 1 yn dechrau'r tymor newydd ar Ddydd Iau 3ydd o Fedi
- Blwyddyn 2 – Blwyddyn 6 yn dechrau'r tymor newydd ar Ddydd Llun 7fed o Fedi.

Amseroedd

- Ysgol yn dechrau i bawb am 9:00.
- Meithrin – dechrau am 9:00 ac yn gorffen an 11:45
- Cyfnod Sylfaen (Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2) yn gorffen am 3:15.
- C.A.2 (Blynyddoedd 3-6) yn gorffen am 3:30.

Bws Ysgol

- Bws ysgol yn rhedeg fel arfer (gweler llythyr 27.08.20 am fwy o fanylion)

Gwisg Ysgol

- Gwisg ysgol arferol i bawb.

Bwyd

- Bydd y gegin yn darparu cinio – gweler bwydlen yr ysgol.
- Bydd angen i bob plentyn dalu trwy ParentPay yn unig – dim arian parod.

Clwb Brecwast

- Rydym yn gweithio ar gynlluniau i ail-agor clwb brecwast yn yr wythnosau nesaf..

Ffrwythau a Llaeth

- Bydd disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn parhau i dderbyn llaeth yn ddyddiol ond mae angen i rieni ddarparu byrbryd iachus e.e. darn o ffrwyth.
- Bydd angen i ddisgyblion C.A.2 – Blwyddyn 3-6 ddod a byrbryd iachus (ffrwyth) bob dydd, a phan fydd amgylchiadau yn caniatau, byddwn yn ail-agor y siop ffrwythau.

Mynediad i Safle'r Ysgol

- Mae tipyn o waith adeiladu yn digwydd ar hyn o bryd ar safle'r ysgol ac fydd yn parhau am fisoedd i ddod.
- Mae yna lwybr newydd wedi ei greu ac mae'n rhaid dilyn y llwybr i fynd o amgylch yr ysgol.
- Nid oes sytem un ffordd mwyach ac felly rhaid dilyn yr un llwybr i fynd allan.
- Mae map wedi ei atodi i ddangos pa ddrws y bydd eich plentyn yn mynd at ac o le mae angen i chi eu casglu.
- O ganlyniad i'r gwaith adeiladu, bydd gatiau'r ysgol yn cael eu cloi am 9:15. Mae prydlondeb yn bwysig iawn ar hyn o bryd. Os fyddwch yn cyrraedd yn hwyr neu yn gorfod casglu eich plentyn, bydd angen ffonio'r ysgol er mwyn i aelod o staff agor y giatiau.
- Gofynnwn yn garedig iawn i chi ddilyn rheolau ymbellhau cymdeithasol pan fyddwch ar y safle.

Hoffwn unwaith eto ddiolch i chi am eich cydweithrediad gyda'r trefniadau hyn ac edrychwn ymlaen yn fawr at groesawu'r disgyblion nôl atom wythnos nesaf.

Cofion Cynnes

Mr C Humphreys.

Pennaeth/Headteacher: Mr C Humphreys
YGG Tyle'r Ynn
Llansawel Crescent, Llansawel, Castell Nedd, Nedd Port Talbot, SA112UN

Dirprwy Bennaeth/Deputy Headteacher: Mrs L Vaughan
Ffôn/Phone: 01639 812229
e-bost/e-mail: yggtylerynn@npt.school
Gwefan/Website: http://ygg-tyler-ynn.j2bloggy.com/cy/